

wedi ei wadu y tro hwn ei rwystro rhag mynd ar ei ffordd i'r Groes. Cerddodd ymlaen i wynebu ei farnwyr ac i rodio'r llwybr i Golgotha. Amhosibl ydoedd iddo gyrraedd gardd yr Atgyfodiad ar y dydd cyntaf o'r wythnos heb iddo rodio'r ffordd hon. Yr un mor amhosibl yw i'w ddilynwyr brofi llawenydd y Pasg heb iddynt hwythau hefyd ddewis rhodio ffordd ei Groes.

Gweddi:

O Arglwydd Iesu Grist, edrych arnom gyda'r llygaid a edrychodd ar Pedr,

*fel y cawn ninnau, gyda Pedr, edifarhau,
a thrwy dy gariad gael maddeuant ac adferiad;
er mwyn dy drugaredd. Amen.*

(Yn seiliedig ar Lancelot Andrewes, 1555-1626)

12. GERBRON PILAT

Darllen: Marc 23: 1-25,
Ioan 18: 28-19: 22

“*A groeshoeliwyd hefyd dan Pontiws Pilat*” medd Credo Nicea. Ond pwy oedd y Pontiws Pilat hwn? Penodwyd ef yn rhaglaw Jwdea yn y flwyddyn 26 O.C. Ychydig iawn a wyddom amdano. Rhaid ei fod yn filwr profiadol a rheolwr llwyddiannus i gael ei benodi i dalaith mor anodd. Serch hynny, nid oedd ei berthynas â'r Iddewon yn un hapus o gwbl. Nid oedd yn deall y bobl hyn; yn wir, ni ddangosodd unrhyw awydd i'w deall. Dirmyg oedd ganddo tuag atynt hwy a'u crefydd.

Yr hanesydd, Joseffw, sy'n croniclo'r hanes i ni. Lleolwyd pencadlys y rhaglaw yng Nghesara Maritima ar lan Môr y Canoldir. Garsiwn Rufeinig fach oedd yn Jerwsalem am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn defnyddio caer Antonia fel gwersyllfa, a chael ei atgyfnerthu adeg y prif wyliau Iddewig. Safai'r Antonia uwchben llysoedd y Deml, gan roi i'r Rhufeiniaid le da i gadw golwg fanwl ar weithgareddau'r Iddewon adeg guyl. Roedd hi'n arferiad gan fyddinoedd Rhufain i ymdeithio i bob man dan arweiniad eu heryrod Rhufeinig gyda phenddelw Cesar arnynt – i bob man yn yr ymerodraeth gydag un eithriad, sef dinas sanctaidd yr Iddewon, Jerwsalem. I'r Iddewon, delwau cerfiedig oedd yr eryrod hyn â symbolau o'r duw Cesar arnynt, ac felly yn wrthun yn eu golwg hwy. Er mwyn osgoi terfysg yn Jerwsalem, byddai catrodau Cesar yn cuddio eu heryrod wrth fynd trwy'r ddinas. Roedd y fath amarch tuag at Rufain yn annerbyniol i Pilat a phenderfynodd ddangos pwy oedd y meistr yn Jwdea. Danfonodd ei filwyr i Jerwsalem liw nos gan guddio eu heryrod yn l yr arfer, ond erbyn y bore, roedd yr eryrod i gyd i'w gweld ar furiau'r gaer, yng ngolwg y Deml. Tramgwydd oedd hyn i'r addolwyr Iddewig ac achosodd gythrwfl mawr. Danfonwyd dirprwyaeth at Pilat yng Ngesarea Maritima, a dilynodd ei haelodau hi i bobman. Digwyddodd i'r rhaglaw a'r Iddewon hyn ddod wyneb yn wyneb un diwrnod. Tynnodd pob milwr ei gleddyf ac mewn ymateb, dinoethodd pob aelod o'r ddirprwyaeth ei war a llwyddodd eu gwrthsafiad di-drais orfodi rhaglaw Rhufain i osod yr eryrod o'r golwg.

Sarhad nesaf Pilat oedd hongian tarianau **addurniadol** mewn mannau amlwg yn ei breswylfa yn Jerwsalem, sef hen balas Herod Fawr. Yr hyn a barodd tramgwydd i'r Iddewon y tro hwn oedd bod

enw'r Ymerawdwr Tiberiws ar y tarianau ac yntau'n dduw yng ngolwg Rhufain, gan wneud y tarianau'n ddelwau cerfiedig. Palestina oedd yr unig dalaith Rufeinig lle na orfodwyd ei thrigolion i addoli'r duw Cesar o leiaf unwaith y flwyddyn. Penderfynodd Pilat newid hynny gan orfodi ei dalaith i gydymffurfio â gweddill yr ymerodraeth. Danfonodd yr Iddewon lythyr i Rufain i fynegi eu cwyn a chafodd y rhaglaw ei geryddu gan Tiberiws gyda gorchymyn i dynnu'r tarianau i lawr.

Yn ddiweddarach, penderfynodd Pilat fod angen gwella'r cyflenwad dŵr i ddinas Jerwsalem. Aeth ati i godi dyfrffos newydd, ond i dalu am y gwaith, fe gymerodd arian o drysorfa'r Deml. Pan aeth y newyddion ar led drwy'r ddinas daeth tyrfaedd ynghyd i brotestio, gan greu perygl o derfysg arall. Ymateb Pilat oedd danfon ei filwyr allan i wynebu'r torfeydd. Er iddo roi gorchymyn i'w filwyr i ddefnyddio'r grym lleiaf posibl, aeth y sefyllfa allan o reolaeth yn llwyr. Cafodd llawer o Iddewon eu niweidio, gan gynnwys pobl ddiniwed a oedd yn sefyll o gwmpas y lle. Danfonwyd cwyn arall yn ei erbyn i Rufain!

Yn ychwanegol i hynny, rhestrodd yr athronydd Iddewig, Philo o Alecsandria, gwynion eraill yn ei erbyn: llygredigaeth, gweithredoedd haerllug, anrhaith, parodrwydd i sarhau pobl, creulondeb, llofruddiaethau helaeth, heb na phrawf na chondemniad, ei ddiffyg dynoliaeth ddiddiwedd.

Talaith Samaria oedd lleoliad y gwrthdrawiad olaf rhwng y bobl a'r rhaglaw, y tro hwn yn nhref Samaria. Yn ôl traddodiad Samaritanaidd, claddwyd llestri'r Deml ar Fynydd Gerisim. Honnodd rhyw dwyllwr ei fod yn gwybod am leoliad y trysor ac ymgasglodd dilynwyr lawer ato yn nhref Tirbatha. Pan glywodd Pilat fod torfeydd yn ymgasglu yno danfonodd filwyr i ddinas Samaria. Lladdasant lawer o bobl a dienyddiwyd yr arweinwyr. Dyma Gyngor y Samaritaniaid yn cwyno wrth raglaw Syria. Cafodd Pilat orchymyn i fynd i Rufain i roi adroddiad i'r ymerawdwr ei hun, ond bu farw Tiberiws cyn i'r rhaglaw gyrraedd a diflannodd Pilat o'r darlun.

Gerbron y dyn hwn yr arweiniwyd eu carcharor gan yr awdurdodau Iddewig. Roedd yr archoffeiriad a'i lys yn awyddus i'r rhaglaw Rhufeinig ei ddedfrydu i farwolaeth, gan nad oedd ganddynt hwy'r hawl i ddefnyddio' gosb eithaf. I bob golwg, nid oedd y mater hwn o bwys mawr; dim ond saer o'r brynau, un o'u pregethwyr teithiol hwy oedd y carcharor. Er bod hyn o bwys llawer mwy i'r arweinwyr Iddewig, ni

sylweddolodd neb pa mor bwysig oedd y prawf hwn, na'r carcharor hwn.

Bu'n rhaid i'r rhaglaw godi o'i wely yn fore yn wyneb dymuniad pendant yr awdurdodau Iddewig i gyfarfod ag ef. Galw yr oeddent am brawf a dedfryd (a dienyddiad) ar unwaith er mwyn i'r cyfan fod drosodd cyn dechrau Guyl y Pasg. Ond, gan nad oedd hi'n bosibl i'r archoffeiriad a'i ffrindiau roi eu traed ar lawr y palas heb iddynt halogi eu hunain mor agos at drothwy'r Pasg, rhaid oedd i gynrychiolydd Rhufain Fawr ddod allan atynt hwy. Gofidient ynglwn â chael eu halogi gan deils Rhufeinig ond ni ofidiasant o gwbl am ddefnyddio celwydd ac anghyfiawnder i ladd dyn da, dieuog. Daeth Pilat allan, gan sefyll ar lwyfan yn wynebu iard y palas. O'i flaen, safai'r carcharor yn ei gadwyni, gydag olion camdriniaeth arno. Un Iesu, mab Joseff, saer, oedd eisoes wedi ei gondemnio gan y Sanhedrin fel troseddwr a oedd yn haeddu marwolaeth.

Wynebodd y rhaglaw a'r carcharor ei gilydd, barnwr Cesar a Barnwr Duw. Cynrychiolai'r carcharor y gorchfygedig a'r gorthrymedig, y tlawd a'r darostyngedig, tra bod y barnwr yn cynrychioli Rhufain Imperialaidd a'i hymerawdwr, gwareiddiad, cyfraith, trefn, heddwch, grym a chyfiawnder Rhufain. Pilat oedd cynrychiolydd y crach, y bobl uwchraddol, a oedd yn ymfalchio yn y ffaith iddynt wneud popeth yn iawn a theg wrth iddynt reoli pobl eraill (naws dosbarth rheolwyr Rhufain a phob gwlad imperialaidd arall hyd heddiw).

'*Beth yw'r cyhuddiad?*' oedd cwestiwn cyntaf y rhaglaw. Ateb rhyfedd a gafodd ganddynt: "*Oni bai bod hwn yn droseddwr, ni fuasem wedi ei drosglwyddo i ti.*" Ai 'meindia dy fusnes, gwna dy waith' yw hyn, neu ymgais i beidio ag ymhelaethu? Ateb Pilat oedd dweud, 'gan iddynt gondemnio'r carcharor yn ôl eu deddfau eu hunain, dylent ei gosbi hefyd dan yr un deddfau'. Dull yr Iddewon o ddienyddio oedd llabyddio, nid croeshoelio, ond nid oedd ganddynt hawl i ddienyddio neb.

Aeth Pilat yn ôl i mewn i'r Praetoriwm, gan fynd â Iesu gydag ef. Ar ôl ei holi'n fanwl, penderfynodd y rhaglaw nad oedd unrhyw achos iddo ei ateb. Pan glywodd yr archoffeiriad a'i gefnogwyr yr hyn oedd gan Pilat i'w ddweud, ymatebwyd yn ffyrnig. Taerasant i'r carcharor achosi cynnwrf ymhlith y bobl, gan ddechrau yng Ngalicea. Brenin Herod Antipas oedd yn gyfrifol am y gyfraith yng Ngalicea, ac yr oedd yn dda gan Pilat gael gwared â'r carcharor a danfon Iesu, fel un o

drigolion Galilea, at Herod. Yn ffodus iawn i Pilat a'r archoffeiriad, roedd y brenin yn digwydd bod yn Jerwsalem ar y pryd. Bu'n awyddus am gyfnod hir i weld a holi Iesu o Nasareth. Pan safodd Iesu o'i flaen, ceisiodd Herod ei orfodi i siarad ond gwastraff amser oedd ei holl groesholi. Mewn rhwystredigaeth a dirmyg, gan anghofio ei gyfrifoldeb fel barnwr a brenin, penderfynodd Herod Antipas gael tipyn o hwyl gyda'i garcharor. Gwisgwyd Iesu mewn dillad ysblennydd a chafodd ei watwar yn greulon gan y brenin a'i lys, cyn ei ddanfôn yn ôl at Pilat. Daeth y ddau elyn yn gyfeillion y diwrnod hwnnw oherwydd hyn.

Rhaid felly i gynrychiolydd cyfraith Rhufain ddychwelyd i'r Praetoriwm ac

ail-ddechrau'r prawf. "*Ai ti yw Brenin yr Iddewon?*" oedd ei gwestiwn cyntaf. "*Beth wnaethost ti?*" Daeth yr ateb annisgwyl, "*Nid yw fy nheyrnas o'r byd. Deuthum i'r byd i dystiolaethu i'r gwirionedd. Y mae pawb sy'n perthyn i'r gwirionedd yn gwrando ar fy llais.*" Gofynnodd Pilat gwestiwn arall: "*Beth yw gwirionedd?*" Agorodd Ffransis Bacon ei draethawd 'Gwirionedd' gyda'r frawddeg fythgofiadwy: "*Beth yw gwirionedd? medd Pilat cellweirus, gan beidio ag aros am ateb.*" Gan nad oedd y carcharor yn defnyddio iaith gyfrwys gwleidyddiaeth, methodd y barnwr â deall ei eiriau na'i ddistawrwydd chwaith. Aeth yn ddiamynedd am ei fod yn siŵr bod y dyn hwn yn ddieuog a bod yr awdurdodau Iddewig am gael gwared ohono am resymau y tu hwnt i ffiniau deddf.

Dychwelodd at y dorf y tu allan, gan geisio meddwl am ffordd i sicrhau rhyddid i'r carcharor rhag llid ei elynion a chael dihangfa iddo'i hun o sefyllfa beryglus. Cafodd fflach o oleuni: yr oedd yna draddodiad o ryddhau un troseddwr i'r bobl adeg guyl y Pasg, ac Iesu oedd y dyn addas ar gyfer yr uyl hon. Ond methu â chael ei ffordd ei hun wnaeth y Rhufeiniwr yn wyneb casineb y dorf tuag ato ef a thuag ar y Galilead. Gofynnodd Pilat i'r dorf i dderbyn Iesu ond gwrthod a wnaethant, dan berswâd yr archoffeiriaid a'u gweision, gan hawlio rhyddhau Barabbas yn ei le. '*Terfysgwr*' oedd Barabbas, ymladdwr treisgar o rengoedd mudiad yn ymladd yn erbyn Rhufain. Yn y ddrama '*The Man born to be King*', gan Dorothy L. Sayers, hawliodd y dorf ryddid y terfysgwr trwy weiddi, "*Ymladdodd trosom o'r blaen ac ymladda trosom eto.*" Ceir traddodiad sy'n dweud mai Iesu oedd enw Barabbas hefyd. Ystyr yr enw yw, '*ef a wareda ei bobl...*' Cwestiwn Pilat iddynt felly a chwestiwn hanes i bawb yw: "*Pa waredwr yw eich dewis? – Iesu,*

Mab Adda, y terfysgwr treisgar, neu Iesu, mab Mair, Mab y Dyn, Mab Duw?— dyn y gyllell a'r waywffon, dyn y dryll a'r bom neu'r Dyn sy'n dod â maddeuant a chymod, gras a thangnefedd i'r byd. Saif y cwestiwn o flaen ein llygaid o hyd.

Collodd Pilat y frwydr. Roedd sicrhau heddwch yn Jerwsalem a'i ddyfodol ei hun fel uchel swyddog yr ymerodraeth, yn bwysicach na dyfodol dyn di-nod o genedl orthrymedig, gas. Dywed Ioan iddo olchi ei ddwylo, y dwylo a ysgrifennodd warant y dienyddiad wedyn! Roedd y warant i'w gosod ar ben croes yr un a oedd i'w ddienyddio ac ysgrifennwyd hi yn y tair iaith swyddogol - Hebraeg (iaith crefydd), Groeg (iaith diwylliant) a Lladin (iaith cyfraith a llywodraeth). Byddai pawb yn deall o leiaf un ohonynt. 'Brenin yr Iddewon' oedd y cyhuddiad yn erbyn y carcharor a gwnaeth arweinwyr yr Iddewon yn gynddeiriog. Enillodd Pilat un fuddugoliaeth fach, wedi'r cyfan.

Cafodd cyfiawnder, cyfraith a threfn, yr heddwch Rhufeinig eu gwaradwyddo, wrth i Pilat eu bradychu, yn yr un modd ag y bradychwyd Deddf Moses a chywirdeb crefyddol gan yr archoffeiriad a'i gyfeillion. Rhoddwyd cofeb i raglaw Jwdea a fydd yn para hyd byth: mewn eglwysi Cristnogol ar draws y byd, ar y Sul a dyddiau eraill, caiff y 'Credo Apostolaidd' ei adrodd: "*Dioddefodd dan Pontiws Pilat, a groeshoeliwyd, a fu farw ac a gladdwyd.*"

Mathew sy'n rhoi hanes Pilat yn golchi ei ddwylo. Ond, a oes modd iddo gael ei ddwylo'n lân? 'Nac oes', medd Lady Macbeth yn nrama Shakespeare. 'Oes', medd eu proffwyd Eiseia (1: 18): '*Pe byddai eich pechodau fel ysgarlad, fe fyddant cyn wynned â'r eira...*' Aeth Iesu i'w groes, ei gorff yn ddrylliedig ond ei anrhydedd yn gyfan. Gwirionedd a gras enillodd frwydr Calfaria. Y dyn dirmygedig hwn ar ei groes yw unig obaith Pontiws Pilat, unig obaith Caiaphas ac Annas, unig obaith Jwdas a Pedr, unig obaith gweddill y Deuddeg, unig obaith pob un arall ohonom. '*Dyma Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd.*' (Ioan 1: 29).

Gweddî:

*Arglwydd Iesu Grist,
a fradychwyd am ddeg ar hugain o ddarnau o arian,
a'th ddisgyblion yn gwrthgilio,
a'th wadwyd gan Pedr,
a'th watwarwyd gan Herod,*

*a'th fflangellwyd gan Pilat,
a'th hoeliwyd i'r groes:
diolchwn i ti mewn gostyngeiddrwydd a chyda'n holl galon
am dy ddioddefaint a'th farwolaeth,
trwy'r rhai hyn y cawsom faddeuant a'n gwared. Amen.
(J. W. G. Masterton)*